tafod elái

MEHEFIN 2016

Rhif 308

Pris 80c

Cadeirio Gwynfor

Llongyfarchiadau i Gwynfor Dafydd, Tonyrefail, sydd wedi ennill cadair Eisteddfod yr Urdd Sir y Fflint 2016. Mae'r gadair yn cael ei chyflwyno i'r Prifardd am gyfansoddi cerdd gaeth neu rydd, heb fod dros 100 llinell ar y testun *Cam*. Yn ddisgybl yn Ysgol Llanhari, a chyn hynny yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail, mae Gwynfor yn gobeithio mynd i Goleg yr Iesu yng Nghaergrawnt y flwyddyn nesaf i astudio Sbaeneg ac Almaeneg. Beirniaid y gystadleuaeth oedd Hywel Griffiths a Gwenallt Llwyd Ifan.

Mae Gwynfor wedi bod yn cystadlu ar lwyfan yr Urdd mewn cystadlaethau unigol a gydag Adran Bro Taf – yn clocsio, dawnsio gwerin a llefaru. Mae amryw wedi ei ysbrydoli a'i gefnogi dros y blynyddoedd. Dywedodd, "Hoffwn gydnabod fy nyled i Mererid Hopwood a gyflwynodd y gynghanedd i mi, i Cyril Jones am fy nysgu sut i feistroli'r grefft, i dîm Talwrn Tir Iarll am y profiadau barddol ac yn bennaf i Catrin Rowlands, fy athrawes Gymraeg, am ei chefnogaeth a'i chyngor anffaeledig ers i mi gyrraedd Ysgol Llanhari ym mlwyddyn saith."

Canlyniadau Eisteddfod yr Urdd ar dudalen 8



Charlotte Kwok, Ysgol Gynradd Dolau enillydd Unawd Piano Bl. 6 ac iau

Daniel Jones Dawns Werin Unigol i Fechgyn dan 25oed

Cân Actol Adran Bro Taf

Grwp Llefaru Dysgwyr Ysgol Gynradd Creigiau

Arbenigwyr Castellau

Llongyfarchiadau mawr i aelodau o dîm Cwis Ysgol Castellau Tom, Jacob, Lloyd ac Aled. Roedd yr ysgol yn cymryd rhan am y tro cyntaf eleni yng Nghystadleuaeth Quiz Club UK. Ar ôl ennill cystadleuaeth y De Orllewin ym Mryste aeth y tîm ymlaen i gystadlu yn Taunton, gan ddod yn ail (o un cwestiwn!) o'r deuddeg tîm oedd yno. Croeswn ein bysedd nawr am le 'wild card' ar gyfer y rownd derfynol yn Llundain. Da iawn bois, gwych!

Ysgol Pont-Sion-Norton

Wythnos Bwyta'n Iach
Ar ddiwedd mis Mai, bu'r ysgol gyfan yn dathlu wythnos bwyta'n iach. Roedd yn cynnwys gweithgareddau coginio, blasu bwyd, ymarfer corff a byw'n iach. Diolch i Miss Morgan am drefnu'r wythnos, yn cynnwys y bore brecwast iach a diolch i'r rhieni am gefnogi.

Noddi
Cafwyd diwrnod o gerdded a rhedeg noddedig yn ystod yr wythnos bwyta'n iach. Roedd pawb wedi blino'n lan erbyn diwedd eu sesiwn! Diolch i bawb a gymerodd ran ac am gasglu arian noddi.

Cwis Llyfrau
Bu criw o flwyddyn 3 a 4 yn brysur yn ymarfer a pharatoi ar gyfer rownd ddrama y Cwis Llyfrau. Roedd angen creu drama 8 munud o nofel o'u dewis, sef 'Pum Prysur, Yr Antur Hanner Tymor'. Rhaid aros am y canlyniad nawr.

Eisteddfod Sir y Fflint 2016
Pob lwc i Hannah Evans yng nghystadleuaeth y Cogurdd ac i Catrin, Ela ac Eve yn yr Ymgom.

Samba
Cafodd dosbarthiadau'r Albion, Y Comin a'r Bwthyn sesiwn Samba gan Mr Mr Galozzi fel rhan o'r thema 'Carnifal'. Cafwyd cyflwyiad i'r offerynnau a chyfle i chwarae'r offerynnau ac offerynnau a grewyd gan y plant.

Anifeiliaid y Fferm
Aeth y dosbarth Meithrin a'r Derbyn i fferm Arch Noa a chafwyd ymweliadau amrywiol gan anifeiliaid y fferm a madfall, llygod mawr a neidr fel rhan o'r thema Sw Bach. Bu'n brofiadau gwych i bob un.

Mini Saga
Llongyfarchiadau i'r plant o flynyddoedd 3 i 6 sydd yn mynd i fod yn awduron mewn llyfr. Roedd eu gwaith Saesneg 'Mini Saga' wedi cael eu dewis i fod yn ran o lyfr a fydd yn cynnwys straeon gan blant ar draws Prydain. Cafodd 5 o bob dosbarth eu dewis. Edrychwn ymlaen at ddarllen y straeon!

Ysgol Uwchradd Pontypridd

Taith CA3 i Langrannog
Cafodd blwyddyn saith ac wyth penwythnos anhygoel yng ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog yn ystod y 6ed – 8fed o Fai. Cyrhaeddon ni'r gwersyll yn weddol hwyr ar ôl i'r gyrrwr bws benderfynu gyrru'r ffordd hir i Langrannog. Yn y nos, bwyton ni swper blasus a chymeron ni rhan mewn sawl gweithgaredd gan gynnwys nofio, pêl-fasged, pêl-droed a phêl-foli.

Ar ôl noson heb chwinciad o gwsg, daeth dydd Sadwrn gyda cyfleoedd i'r disgyblion rhoi cynnig ar y rhaffau isel, rhaffai uchel, beicio, marchogaeth ceffylau a llawer mwy. Gyda'r nos aethon ni am dro i'r traeth. Roedd hyd yn oed amser ar ôl hynny i fynd am ddawns yn y disgo. Dydd Sul, roedd pawb yn awyddus i sgïo a gwibgartio cyn dechrau'r daeth hir adre.

Diolch mawr i Mrs N Jones am drefnu taith lwyddiannus eto eleni! Hefyd, diolch i'r disgyblion am fod yn gynrychiolwyr anhygoel ein hysgol ni! Roedden nhw'n wych!

Llwybr Dr. Who – Castell Coch
Fel rhan o'n cyfle wythnosol i fynd â grwpiau o ddisgyblion allan yn cerdded, roedd yn wych yr wythnos hon i gael y disgyblion i lawr at y coetir o amgylch Castell Coch. Er gwaethaf y glaw a'r amodau gwlyb, roedd yr holl ddisgyblion wedi paratoi'n dda gyda dillad addas a chawson nhw amser gwych. Roedden nhw'n mwynhau mas draw wrth edrych ar y gwahanol gerfluniau coetir a llwybr 'Doctor Who'. Gobeithio y bydd y tywydd yn gwella'n fuan ar gyfer y daith gerdded i fyny Pen Y Fan !

Diwrnod Rhoi ac Ennill
Mae ein merched adeiladu wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Chartrefi Jehu Adeiladu ac RCT i wneud gwahaniaeth i'n cymunedau.

Mae'r Diwrnod Rhoi ac Ennill yn ddigwyddiad blynyddol lle mae'r adran adeiladu dod yn at ei gilydd am ddiwrnod. Mae'n cyfleu euraidd i'r merched wella eu sgiliau gwaith pren a rennir gan Sian Bridge, saer cymwysedig a gyflogir gan Jehu. Roedd Sian a'r merched wedi creu planwyr pren (a wnaed yn yr ysgol) ar gyfer datblygiad y safle yn Springfield Court ym Mhentre Eglwys. Unwaith y bydd y planwyr yn gyflawn , cawsant eu cludo i'r safle lle mae pawb yn gweithio gyda'i gilydd fel cymuned i beintio, plannu planhigion a helpu i drawsnewid darn o dir segur i'r gymuned ei fwynhau.

Diolch enfawr i Steve Jones, ein hathro adeiladu yma yn Ysgol Uwchradd Pontypridd. Mae'n gweithio'n hynod o galed gyda'r merched er mwyn rhoi cyfleoedd gwych a phrofiadau anhygoel iddynt!

Ysgol Llanhari

Rownd Derfynol Pobathon a'n beirniad o fri
Penllanw wythnosau o gystadlu oedd rownd derfynol pobathon Ysgol Llanhari a gynhaliwyd ar y 25ain o Fai. Roeddem yn hynod o gyffrous bod Dudley Newbury wedi derbyn ein gwahoddiad i feirniadu ac roedd y disgyblion, a chynrychiolydd y staff Miss Angharad Morgan yn falch o'r ffaith bod y fath arbenigwr yn beirniadu eu hymdrechion! Bu'n amhosib dewis un enillydd ac felly Marged, Mali a Dafydd a fu yn gyd-fuddugol. Mae'r gystadleuaeth wedi cydio yn nychymyg pawb a diolch yn fawr i Dudley am feirniadu, Miss Rowlands a Mrs Bowen am drefnu ac wrth gwrs y cystadleuwyr am eu brwdfrydedd!

Diwrnod Trosglwyddo Blwyddyn 6
Cynhaliwyd ein hail ddiwrnod trosglwyddo ar ddechrau mis Mai a braf oedd croesawu ein darpar ddisgyblion. Treuliwyd y dydd yn gwneud naill ai gweithgareddau Ffrangeg, Celf neu Dechnoleg. Edrychwn ymlaen at y diwrnod nesaf wedi'r hanner tymor lle bydd ffocws ar Iaith, Cerdd a Drama.

Llysgenhadon Iaith yn cynnal sesiynau i flwyddyn 7
Bu nifer o ddisgblion blwyddyn 9 sy'n llysgenhadon iaith yn cynnal sesiynau Ffrangeg i flwyddyn 7 yn ddiweddar. Defnyddiwyd Pencampwriaethau Pêl droed Ewrop fel cefndir i'r gweithgareddau ac roedd blwyddyn 7 wrth eu bodd yn dysgu geirfa newydd Ffrangeg yn ymwneud â phêl-droed. Cynlluniwyd a chyflwynwyd y sesiynau gan y llysgenhadon iaith ac maent yn haeddu cryn glod am eu hymdrechion.

Eisteddfod yr Urdd
Llongyfarchiadau i'r disgyblion sydd wedi ennill gwobrau yn y cystadlaethau gwaith cartref llenyddol a chelf a chrefft ynghyd â'r criw bach o ddisgyblion a gynrychiolodd y Sir yn Fflint. Rydym yn troi ein golygon yn barod tuag at Benybont yn 2017 a braf oedd cael y cyfle ym mis Ebrill i gyd-berfformio â Tadau Trisant a chôr Ysgol Llantrisant mewn cyngerdd ym Meisgyn. Diolch i Owain, Gwynfor, Celyn, Siwan, merched blwyddyn 8 a chôr y Cyfnod Sylfaen am eu cyfraniad.

Ffrindiau Llanhari
Diolch i'r pwyllgor am drefnu Dawns Haf llwyddiannus iawn yn ddiweddar yng Ngwesty'r Fro. Y gweithgaredd nesaf fydd y Ffair Haf, felly dyma ddyddiad i'r calendr – bore Sadwrn yr ail o Orffennaf yn yr ysgol. Dewch yn llu i gefnogi!

Clocsffit
Hyfryd oedd cael cwmni Tudur Phillips o Clocsffit unwaith eto yn ystod ein diwrnod Abch diweddar. Cynhaliwyd sesiynau clocsio hynod hwyliog gyda'r disgyblion. Mwynhaodd y disgyblion yn fawr ac roedd yn brofiad newydd llawn hwyl i ddisgyblion yr adran gynradd hefyd a fu'n clocsio am y tro cyntaf.

Cyrraedd y Copa
Fel rhan o'u cwrs Addysg Gorfforol Cyfnod Allweddol Tri llwyddodd disgyblion blwyddyn 9 i ddringo Penyfan yn ddiweddar. Bu'n ddiwrnod hwyliog ac ar ôl cyrraedd y copa roedd cyfle i bawb werthfawrogi'r golygfeydd bendigedig ar ddiwrnod clir. Da iawn chi!

Taith i'r Spar!
Diolch i siop Spar Llanhari am estyn croeso i ddisgyblion Cadi Cwningen yn ddiweddar. Aeth y plant ar daith gerdded i'r Spar er mwyn ymarfer eu sgiliau rhif wrth brynu ffrwythau – nid siocled na losin er siom i rai!

Graddio o'r Clwb Peirianneg
Llongyfarchiadau i dri o fechgyn blwyddyn 10 sydd wedi graddio o glwb Sadwrn Ford. Da iawn Ioan, Liam a Iestyn!



Croeso i'r adran gynradd
Penodwyd Mr John Rivers i'r adran gynradd fel athro blwyddyn 3 a 4 ar gyfer mis Medi a Miss Tessa Ryan fydd yn gyfrifol am redeg y dosbarth meithrin ym mis Medi. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau. Bydd cyfle i ddarpar rieni meithrin gwrdd â Miss Ryan mewn noson rieni ar y 7fed o Fehefin.

Noson Agored
Cynhelir noson agored yn yr adran uwchradd i ddisgyblion blwyddyn 5 Tonyrefail, Dolau a Llantrisant nos Iau y 23ain o Fehefin. Mae croeso mawr i'r disgyblion a'r rhieni i ddod i'r ysgol i gwrdd â'r disgyblion a staff ac i ddysgu mwy am Ysgol Llanhari.

Aelodau o gangen Tonysguboriau o Ferched y Wawr yn mwynhau bore yng Ngerddi Dyffryn

Noson wobrwyo diwedd tymor llwyddiannus Clwb Rygbi Pentyrch (Tudalen 5)

EISTEDDFOD YR URDD PEN-Y-BONT AR OGWR TAF AC ELÁI 2017

Blwyddyn i nawr fe fydd pobl yn heidio i Bencoed ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr, Taf ac Elái. Ac i'r cannoedd o bobl y bobl leol sydd wedi bod yn rhan o'r trefnu, yn aelod o bwyllgor, yn cefnogi digwyddiadau ac yn codi arian yn ddiwyd, mae yna gyfle i gael rhywbeth bach i gadw ac i gofio am Urdd 2017.

Mae jygiau medd o waith Caitlin Jenkins ar werth am £25 yr un. Pob un wedi'i wneud â llaw ac wedi rhifo – llai na thraean ar ôl!

Mae cyfle hefyd i brynu llun Rhiannon Art sy'n cyfuno ardaloedd Pen-y-bont, Taf ac Elái mewn un darlun lliwgar a thrawiadol.

Am £40 ceir llun maint A3 wedi'i mowntio, rhifo ac arwyddo gan Rhiannon. Ond brysiwch, dim ond 100 print sydd ar gael a gwerthwyd y 50 cyntaf mewn llai nag wythnos.

Bydd y jwg a'r llun gwreiddiol yn mynd i'r ocsiwn yng nghinio cinio gala'r Pwyllgor Gwaith ar Fehefin yr 17eg yng ngwesty'r Fro. Mae dal ambell docyn ar ôl os hoffech ddod!



Mali Meg merch Eleri a Geraint, Creigiau (Tudalen 10)



Dyweddïad Nathan Price ac Astrid Morgan, Creigiau

Croeso i'r byd i Cessia Gara Rhose a anwyd yn 8 pwys a 12 owns ar 18 Mai, merch i Angharad Spooner, Tonyrefail. (Tudalen 7)

Dathlu ail-agor Capel Tabernacl gyda Huw M (Tudalenn 6)

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Achub Plentyn
Cafodd Alun Evans (Maes y Sarn gynt) a Sean Canham, dau aelod o staff Ysgol Gymraeg Coed y Gof eu canmol yn uchel yn ddiweddar am achub disgybl a oedd yn tagu ar rawnwin. Pan oedd Bailee-Rae Parker yn bwyta ei chinio fe dagodd ar rawnwin. Wrth iddi gael trafferth i anadlu, defnyddiodd Sean symudiad Heimlech i gael awyr yn ôl i'w hysgyfaint ac fe roddodd Alun, aelod o dîm cymorth cynta'r ysgol, ergydion i'w chefn i ryddhau'r grawnwin. Yn naturiol 'roedd mam Bailee-Rae yn ddiolchgar iawn i'r ddau am achub bywyd ei merch fach 5 oed.

Dyna ein hatgoffa o bwysigrwydd torri ffrwythau yn ddarnau cyn eu rhoi i blant bach.

Clwb y Dwrlyn
Y Prifardd Geraint Lloyd Owen oedd y siaradwr yng nghyfarfod mis Mai a theitl ei sgwrs oedd "Geraint a Gerallt." Cychwynnodd drwy holi'r gynulleidfa beth oedd barddoniaeth yn ei olygu iddyn nhw. Yn sgîl yr atebion a ddaeth o'r llawr aeth ati i olrhain sut y daeth barddoniaeth yn ganolog i'w fagwraeth ef a'i frawd, Gerallt, yn y Sarnau lle cadwai eu rhieni siop. Arwr cynnar oedd Llwyd o'r Bryn a alwai yn y siop yn aml gan osod tasgau barddonol iddynt cyn eu barnu a rhoi marc.

Nod ac uchelgais Gerallt oedd bod yn fardd mawr. Nid cicio pêl oedd ei ddileit ond ysgrifennu ac ysgrifennu gan lenwi llyfrau gyda phenillion, cerddi ac englynion. Byddent yn cynnal "Ymryson y Beirdd" yn y siop gan gyfansoddi cerddi talcen slic yn aml yn sôn am bobl yr ardal. Roedd milltir sgwâr ei blentyndod yn bwysig iawn iddo. Pan oedd y gweddill yn casglu ac yn cyfnewid lluniau peldroedwyr, 'roedd Gerallt yn casglu lluniau o feirdd a llenorion Cymru. Ar siart eilunod Gerallt roedd lluniau Saunders Lewis, Gwyndaf Evans, Michael D Jones, T H Parry Williams a Cassie Davies. Fel y dywedodd Geraint, nod Gerallt oedd bod yn fardd mawr ac haedda gael ei ystyried yn un o dri " bardd mawr " yr ugeinfed ganrif - Gerallt, Dic Jones ac Allan Llwyd.

Roedd traddodi Geraint yn ysbrydoledig a diffuant ac fe wefreiddiwyd y gynulleidfa gyfan. Noson i'w thrysori ac un y byddwn yn ei chofio wrth weld Geraint yn ymgymryd â dyletswyddau'r Archdderwydd ar lwyfan y Brifwyl.

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

Priodas Diamwnt
Llongyfarchiadau i Jacqueline a Mike Webb, Elm Street sy'n dathlu eu priodas diamwnt ar Mehefin 2l. Maent yn falch iawn o'u teulu. Mae ganddynt dri mab, chwech o wyrion ac undegchwech o orwyrion. Dymuniadau gorau iddynt am lawer o flynyddoedd eto.

Llongyfarchiadau i Kizzy Pritchard (Webb gynt) wyres i Mike a Jacqueline Webb sydd newydd gymhwyso fel bydwraig yn Ysbyty Glangwili Caerfyrddin. Dymuniadau gorau iddi a phob bendith yn ei gwaith.

Ysgol Abercerdin
Cafodd plant Ysgol Abercerdin brofiad arbennig pan ddaeth y pianyddion enwog yr Athro Julian Jacobson a Mariko Brown i'r Ysgol i roi Cyngerdd i'r plant. Maent yn arfer chwarae yn Neuadd Albert ond daethant i Abercerdin ar ôl cwrdd a dwy athrawes oedd yn y Gwesty Rafayel tra ar Gwrs yn Llundain. Daeth piano grand i'r ysgol ar gyfer y Gyngerdd. Ni fydd y plant byth yn anghofio'r Gyngerdd yma.

Dymuniadau Da
Da yw gweld bod Joy Glyn yn gwella wedi ei hanffawd ddiweddar pan dorrodd pont ei hysgwydd. Pob dymuniad da Joy.

Cydymdeimlad
Trist iawn yw gorfod nodi marwolaeth un o hen drigolion Pentyrch, Henry Jones, a fu, fel ei dad Cadwgan, yn gigydd ar sgwâr y pentre' am flynyddoedd lawer. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Eira a Vaughan a'r teulu.

Clwb Rygbi Pentyrch
Daeth y tymor i ben gyda'r tîm cyntaf yn gorffen yn 6ed yn eu hadran, safle parchus iawn o ystyried yr holl anafiadau a gafwyd dros fisoedd y gaeaf. Ar ddechre Mai cafwyd noson wobrwyo i'w chofio yn y clwb. Rhys Thomas - y capten enillodd dlws chwaraewr y flwyddyn a fe hefyd oedd dewis ei gyd chwaraewyr. Nathan Williams oedd dewis y cefnogwyr a Luke Fletcher y chwaraewr mwya addawol. Ethan Williams oedd chwaraewr y flwyddyn gyda'r tîm ieuenctid, ac roedd gwahanol dlysau hefyd i Ben Harrison Jones, Nick Bowler a Lloyd John .

Yn ogystal cyflwynwyd tlws "Clubman" y flwyddyn i Bob Hannah a rhannwyd Tlws y Cadeirydd rhwng Bob Gilchrist a Hywel Williams.

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Colofnydd y mis: Ceri Morgan

Te prynhawn llwyddiannus iawn
Ar brynhawn Sadwrn gwlyb ddiwedd mis Mai, fe ddaeth torf o bobl i neuadd gymunedol Pontyclun i gael te prynhawn blasus iawn. Cafwyd cyfle i gael teisen neu ddwy, paned a sgwrs yng nghwmni ffrindiau. Pwyllgor Apêl Llantrisant a'r cylch a drefnodd y cyfan ac fe ddaeth rhywun pwysig iawn i feirniadu cystadleuaeth pobi'r plant. Diolch yn fawr i Dudley am ddod i gefnogi ac am ddyfarnu'r ddwy wobr gyntaf i Gwenno a Brengain.

Mike ar daith
Fe fydd Mike Donnelly o Feisgyn yn flinedig dros ben ddiwedd mis Mai! Mae Mike yn rhedeg 250km yn ystod y mis fel rhan o her yr elusen Macmillan, "Outrun May". Mae'n gobeithio codi cryn dipyn o arian ac os hoffech ei noddi gallwch chwilio am "Mike" ar wefan Justgiving

Timau pêl-droed Pontyclun a Llantrisant
Bu mis Mai yn un hynod o lwyddiannus i dimau pêl-droed y cylch. Ar 1af o Fai, enillodd tîm dan 12 Pontyclun gwpan cynghrair TERV (Taf Elai a Chwm Rhymni) gan drechu tîm Heol Gerrig o Ferthyr o ddwy gôl i ddim. Yr wythnos ganlynol, chwaraeodd y tîm dan 13 yn rownd derfynol y cwpan. Mewn gêm gyffrous, fe gollodd Pontyclun yn erbyn Penydarren o bump gôl i dair.

Yng nghyngrair y TERV, tîm dan 13 Llantrisant yw pencampwyr y tymor. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonynt.

Cipio Cwpan y Gleision
Mae tîm rygbi dan 13 Pontyclun hefyd yn mynd o nerth i nerth. Ar y 15fed o Fai cawsant y fraint o chwarae ym Mharc yr Arfau yn erbyn Penarth yn rownd derfynol Cwpan y Gleision ac wrth gwrs, Pontyclun oedd yn fuddugol. Cafwyd noson o ddathlu yn ôl yng nghlwb rygbi Pontyclun wedi'r gêm.

Elain Haf yw Gohebydd mis Gorffennaf - elainaprys@btinternet.com

Bythefnos yn ddiweddarach - yn y Babell Fawr a godwyd ar Faes y Dwrlyn, daeth dros 250 o chwarewyr y timoedd mini a iau at ei gilydd gyda'u teuluoedd ar gyfer y gwobrwyo - yn naturiol yn rhy niferus i'w henwi , ond llongyfarchiade i bawb ar eu llwyddiant yn ystod y tymor. (HLlD)

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Swydd Newydd
Llongyfarchiadau i Gwenno, merch ifanca Geraint a Caroline Rees, Penywaun ar ei phenodiad yn athrawes yn Ysgol Cynradd Gymraeg Caerffili. Bydd Gwenno'n dechre yn ei swydd newydd ym mis Medi. Dymuniadau gorau iti.

Gwell Cyfleusterau ym Mharc y Pentre
Ddydd Sadwrn, Mai 14eg, fe drefnwyd agoriad swyddogol i ddathlu cael offer chwarae newydd ym Mharc y Pentre. Bu pwyllgor y parc yn brysur yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf yn codi arian i wella'r cyfleusterau. Codwyd dros ddeunaw mil o bunnoedd a phenderfynwyd mynd ati'n ddiymdroi er mwyn i blant y pentre gael gwell adnoddau i'w mwynhau yn ystod gwyliau'r haf.

Noson i'r Dysgwyr
Trefnodd aelodau Cymdeithas Gymraeg Llantrisant a Chôr yr Einion noson ar y cyd i groesawu'r Dysgwyr. Gwahoddwyd Côr o Ddysgwyr o Borthcawl i ganu a chawsom ein diddanu gan rai o aelodau'r Côr oedd yn canu clychau llaw. Trefnodd Helen Prosser gyfle i'r dysgwyr holi aelodau'r Gymdeithas a'r Côr mewn gêm o'r enw 'Pwy yw Pwy?' Ar ôl i Gôr yr Einion ganu cân neu ddwy daeth y noson i ben gyda phaned a sgwrs yn y Ganolfan. Diolch i Beti Treharne am drefnu'r noson.

Y TABERNACL
Bedydd
Yn yr oedfa fore Sul, Mai 8fed, bedyddiwyd Elan, merch fach Craig a Leanne Spanswick, Gwaun Meisgyn. Mae Craig yn Ddirprwy Brifathro yn Ysgol Gyfun Gymraeg y Cymer a Leanne yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Coed y Gof. Gweinyddwyd y bedydd gan Jane Eryl Jones.

Dymuniad Da
Braf gweld Audrey Lewis nôl yn yr Oedfaon ar ôl derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ystod mis Mai. Dymunwn iddi adferiad iechyd llwyr a buan.

Dathlu yn y Tabernacl
Trefnwyd Oedfa arbennig fore Sul, Mai 15fed i ddathlu ail-agor y capel ar ei newydd wedd. Llywyddwyd yr Oedfa yn ddeheuig iawn gan Heulyn Rees ac fe gafwyd cyfraniadau gan Aelodau Teulu Twm, y Band, Parti'r Efail a Chôr yr Einion, ond sêr yr oedfa oedd plant lleiaf yr ysgol Sul yn canu i gyfeiliant gitâr Huw M. Darllenodd Margaret Pritchard Copley ddarn o'r Ysgrythur ac fe ddiolchodd Wendy Reynolds, Cadeirydd y Cyfarwyddwyr i bawb a fu yn ymwneud â'r prosiect.

Cyflwynwyd anrheg fach i dri a ysgwyddodd y rhan fwyaf o'r baich sef Helen Middleton, Emlyn Penny Jones a Peter Gillard. Croesawyd yr aelodau o'r adran Saesneg i gyd-ddathlu (a diolch i Helen am gyfieithu). Darllenodd Lynva Abbott ran o'r Beibl a chafwyd cân gan John Davies. Cawsom fraslun o hanes yr eglwys o ganol y ganrif ddiwethaf gan Eirian Rees a siars i'r teuluoedd ifanc i ysgwyddo'r gwaith i'r dyfodol gyda brwdfrydedd. Roedd y gerddoriaeth yn nwylo medrus Siân Elin a Bethan Roberts. Ar ôl yr Oedfa cawsom ein tywys i Neuadd y Pentref lle'r oedd gwledd yn ein haros, a baratowyd gan y gwragedd o dan arweiniad Caroline Rees. Casglwyd £425 tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhenybont ar Ogwr. Dathliad cofiadwy iawn.

Dillad i'r Ffoaduriaid
Ymgyrch arbennig a fu ar y gweill yn ystod mis Mai yn y Tabernacl oedd y casgliad dillad i blant mewn gwersylloedd ffoaduriaid yng Ngwlad Groeg. Diolch i bawb a fu mor hael eu rhoddion o ddillad ac arian yn ystod yr ymgyrch. Danfonwyd dau focs mawr i Wlad Groeg gan obeithio y bydd cynnwys y bocsys yn help mawr i'r plant anffodus. Diolch i aelodau blynyddoedd 12 a 13 Ysgol Gyfun Garth Olwg a Fferyllfa "Well" Tonteg am eu cefnogaeth i'r fenter. Diolch arbennig i Carys Davies ac Ann Dwynwen Davies am arwain y gwaith yma yn y Tabernacl.

Organ Newydd
Anwadal iawn fu organ Y Tabernacl yn ymddwyn ar ôl inni symud nôl i'r capel ar ôl yr atgyweirio. Er i arbenigwyr geisio ei hatgyweirio, ofer fu eu hymdrechion. Ni allai'r amseru fod yn waeth yn ariannol gan gofio costau diweddar atgyweirio'r capel, ond derbyniwyd neges gan berson dienw yn cynnig talu am organ newydd. Diolchwn yn ddiffuant am y rhodd hon i'r eglwys.

Merched y Tabernacl
Cafodd aelodau merched y Tabernacl brofiad diddorol fore Gwener Mai 13eg wrth gyfarfod mewn siop goffi gwbl unigryw ym Mae Caerdydd. Dau berson yn wreiddiol o Wlad Pwyl sy'n rhedeg "Sunflower & I" yn Sgwâr Mount Stuart. Roedd y byrddau coffi wedi eu gosod ymhlith yr hen gelfi a'r henebion. Mewn cornel wrth y drws roedd siop flodau a'r trefniadau yn wledd i'r llygaid. Ar ganol y llawr roedd piano hardd ac roedd un o'r bechgyn yn ganwr da ac yn bwriadu cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Roedd hefyd wedi dysgu'r Gymraeg ac yn sgwrsio'n hyderus. Bore arbennig iawn!

Ein cyfarfod nesaf fydd taith i Langynwyd, ddydd Mercher Mehefin 22ain.

Cymorth Cristnogol
Gwelwyd "criw y bagiau coch" yn disgyn ar y pentref yn ystod mis Mai eleni eto. Aelodau'r Tabernacl yn casglu ar gyfer Cymorth Cristnogol oedd y criw yma. Diolch i bawb am eu cyfraniadau a daeth y cyfanswm yn £1452.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Mehefin
Mehefin 5ed Oedfa Gymun o dan ofal Aelodau'r Creigiau
Mehefin 12fed Y Parchedig Eirian Rees
Mehefin 19eg Oedfa i'r Teulu gyda Lyn West ac aelodau Parc Nant Celyn
Mehefin 26ain Geraint Rees

Ymweliad Merched y Wawr â 'Cook'

Wel, os nad oeddech yno fe golloch chi ... wledd! Do wir! Gwledd pum cwrs! A hynny am ddim! Diolch i Jen Taylor am drefnu noson hyfryd i ni lawr yn **'Cook'** ar Wellfield Road, nos Fawrth, Mai y 10fed.

Noson blasu cynnyrch cwmni 'Cook' oedd hi - bwydydd ffres wedi eu rhewi'n syth ma' nhw'n werthu a rheiny'n fwydydd bendigedig - fel y cytunodd pawb! A tasech chi'n gweld y basgedi llawn oedd gan bawb - wel, tystiolaeth go iawn o safon y prydau. Cawsom flas ar ddau neu dri *starter* bach, yna *sorbet* rhwng y cyrsiau, dau neu dri sampl o brif gyrsiau - neis iawn! A phwdinau! Kelly Thomas biau **'Cook'** bellach, nid hi sefydlodd y fusnes ond bu'n siopa yno am rai blynyddoedd a phan welodd fod y ddau gyfaill oedd wedi agor y siop yn wreiddiol am werthu fe benderfynodd fynd amdani. Mae hi'n arwain tîm o gogyddion medrus iawn sy'n paratoi prydau at bob galw: llysieuwyr, di-gluten, prydau plant, bwyd babis.

Galwch mewn - mae'r siop ar agor bob dydd o'r wythnos, tan yn hwyr ar nos Iau, neu ymwelwch â'r wefan **www.cookfood.net** i gael syniad o be' sy' ar gael. Chewch chi mo'ch siomi - jyst gwnewch yn siwr fod gennych le yn eich rhewgell neu ffrind da o'r enw Morwen sy'n fodlon rhoi benthyg silff yn ei rhewgell hi! Sori - dim lluniau - rhy brysur yn bwyta!

Sôn am fwyta - bydd noson ola'r tymor ym mwyty'r Gwaelod nos Fercher, Mehefin 15fed - saith ar gyfer 7.30. Enwau i Nia plîs er mwyn sicrhau eich lle!

Mae Gŵyl Gymraeg Caerdydd yn dychwelyd i Gastell Caerdydd ar yr 2il a'r 3ydd o Orffennaf. Unwaith eto bydd yr ŵyl yn dod â'r enwau mwyaf yng nghelfyddydau, diwylliant a chwaraeon Cymreig i Gaerdydd; ynghyd â bwyd a diod blasus. Mae mynediad i Gastell Caerdydd yn rhad ac am ddim yn ystod Tafwyl, felly ymunwch yn yr hwyl!

Mae rhaglen lawn Wythnos Tafwyl a Ffair Tafwyl wedi ei atodi, ond am nawr dyma rhai uchafbwyntiau'r Wyl yn y Castell i chi ddarllenwyr Tafod Elái…

Yurt Byw yn y Ddinas: Beti a'i Phobl – Jon Gower yn holi Beti George Ers blynyddoedd mae Beti George wedi holi a sgwrsio â chymeriadau difyrraf Cymru ar ei sioe radio Beti a'i Phobl...nawr, dyma eich cyfle chi i gael hanes Beti, arwres ein cenedl.

Prif Lwyfan: Eden

Mae'r dair ffrind o Glwyd; Non, Rachael ac Emma wedi bod yn canu gyda'i gilydd ers dyddiau'r ysgol, ac ugain mlynedd ers i Eden ffrwydro ar y sin bop Gymraeg gyda'r glasur Paid a Bod Ofn, mae nhw'n ail ffurfio unwaith eto yn arbennig i Tafwyl.

Pabell Bwyd a Diod: Bryn Williams Sesiwn goginio gydag un o gogyddion gorau Cymru, Bryn Williams. Cyfle i flasu ryseitiau o lyfr newydd y cogydd o Ddyffryn Clwyd.

Yurt T

Ardal newydd sbon yn Tafwyl eleni ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau. Ardal ymlacio a yurt llawn gweithgareddau a gweithdai, gan gynnwys sesiynau colur, graffiti, ffasiwn a chelf.

Yurt Byw yn y Ddinas: Clwb Comedi Tafwyl

Mwynhewch awr yng nghwmni pedwar siaradwr Cymraeg doniolaf y byd! Yn cynnwys sêr sioe comedi stand-yp S4C 'Gwerthu Allan' – Sarah Breese, Phil Cooper, Noel James ac eich MC, Dan Thomas. Sioe 16+

Pabell Dysgwyr

Bydd Pabell y Dysgwyr yn llawn cyffro eleni gyda gwesteion arbennig ar y llwyfan, gan gynnwys y gyflwynwraig a thiwtor Nia Parry, y canwr Al Lewis a'r hanesydd Dr Dylan Foster Evans. Bydd llawer o gyfleoedd i ymarfer eich Cymraeg a chwrdd â dysgwyr eraill.

Prif Lwyfan: Ar Log a Dafydd Iwan Dros ddeng mlynedd ar hugain ers ffurfio'r bartneriaeth gerddorol fythgofiadwy Ar Log a Dafydd Iwan, mae'n bleser croesawu'r criw i berfformio ar Brif Lwyfan Tafwyl. Dyma'r bartneriaeth a esgorodd ar ganeuon fel Cerddwn Ymlaen, Ciosg Talysarn, Y Wên Na Phyla Amser a'r anthem fytholwyrdd - Yma o Hyd.

Yurt Byw yn y Ddinas: Caffis Cymru

Sesiwn drafod ddifyr yng nghwmni Lowri Haf Cooke, awdur cyfrol newydd Caffis Cymru – dewch i gael blas ar gynnwys y gyfrol. Beth sy'n gwneud caffi da? Mae Lowri'n gwybod! Sgwrs gydag Elinor Wyn Reynolds, Gwasg Gomer.

Pabell Bwyd a Diod: Sesiwn Blasu Gin Sesiwn blasu gin gyda Dà Mìhle Distillery. Mae'r cwmni o Geredigion yn arbenigo mewn gin blas gwymon a sloe gin.

Pabell Lenyddiaeth

Ymhlith yr awduron a'r beirdd talentog bydd Aneurin Karadog, T. James Jones, Manon Rhys, Alan Llwyd a Christine James. I gloi penwythnos llawn dop o arlwy llenyddol gwych bydd Radio Cymru yn cyflwyno Talwrn y Beirdd.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

Croeso!

Croeso i'r byd i Cessia Gara Rhose a anwyd yn 8 pwys a 12 owns ar 18 Mai. Mae Cessia'n ferch i Angharad Spooner, arweinydd y Cylch Meithrin.

Y Cylch Meithrin yn ddi-gartref

Ar hyn o bryd mae argyfwng yn wynebu Cessia a holl blantos ifainc Tonyrefail gan fod y cynghorydd lleol, Eudine Hanagan, wedi dweud na fydd y neuadd lle mae'r Cylch Meithrin a Ti a Fi wedi bod yn cael eu cynnal ers y saith degau ar gael iddyn nhw ar ôl diwedd tymor yr haf. Mae'r pwyllgor wrthi'n brysur yn ceisio cael hyd i leoliad addas arall, ond dyw honno ddim yn dasg hawdd.

Llongyfarchiadau i Hannah

Llongyfarchiadau i Hannah Dando, cyn-ddisgybl Ysgol Gynradd Tonyrefail ac Ysgol Gyfun Llanhari, ar gael ei derbyn i wneud cwrs actio yn RADA. Pob dymuniad da i ti, Hannah!

Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd 2017

Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i'r Noson Bingo yn y Savoy nos Wener, 20 Mai. Gwnaed £300 o elw ac erbyn diwedd y noson roedd y chwaraewyr bingo yn "galw" am noson arall yn fuan iawn. Awn ati i drefnu noson arall yn yr hydref.

Y ddau ddigwyddiad nesaf fydd:

Noson gomedi – Mae cwmni theatr Avant yn cynnal gŵyl o'r enw Festyrefail ym mis Gorffennaf ac fel rhan o'r ŵyl bydd noson gomedi yng nghwmni llu o gomediwyr yng Nghlwb y Gweithwyr, Tonyrefail ar nos Wener, 8 Gorffennaf am 7pm. Noson Saesneg fydd hi ond bydd yr elw i gyd yn mynd i Eisteddfod yr Urdd. (Hefyd fel rhan o Festyrefail bydd Eglwys Dewi Sant yn cynnal Cymanfa Ganu ddwyieithog nos Sul, 10 Gorffennaf am 6pm.)

Taith gerdded – Dydd Sul, 18 Medi bydd taith gerdded yn ardal y Dimbath yng nghwmni Wyn Roberts, wedi'i dilyn gan bryd o fwyd.

Dilynwch ni ar facebook - https://www.facebook.com/pwyllgortonagilfach/.

Diwrnod mas Dorcas!

Diolch yn fawr i Marian Ifans am dywys ei chywion croesbwyth i Ffair Gwiltio/ Crefftau amheuthun Malvern un dydd Gwener braf jyst cyn diwedd mis Mai. Am brofiad! Cannoedd o stondinau! Cwiltiau cain am a welech chi! Deunyddiau! Botymau! Syniadau! Ron ni bron fel plantos mewn siop losin! Lot o hwyl! Cwmni da! Ac addysg! Wrth aros am y bws dyma rannu ambell berl - perlau ddylsem eu trosglwyddo i'n plant ac i blant ein plant! Tybed a wyddoch chi'r rhigymau/dywediadau bach yma?

'Os deilia'r dderwen o flaen yr ynn,
Gwerth dy ych a phryn fyn.'
(Elenid)

'Buwch goch gota,
P'un ai glaw ai hindda?
Os daw glaw cwymp o'm llaw,
Os daw haul hedfana.'
(Loreen)

'Mae Wil yn mynd i'r farchnad
A Mari'n mynd i'r ffair,
A Jên yn aros gartre,
A Ianto wrth y gwair - a Bili bach!'
'Bys bwtsyn
Twm siwgryn
Long Harris
Lloyd Dafis
Bili bach!' (Elenid)

Beth am ychwanegu at y casgliad?

Pwyllgor Pontypridd
Eisteddfod yr Urdd 2017
Cyngerdd gyda Merched Canna, Caerdydd ac eitemau gan ysgolion Cymraeg yr ardal.
Capel Sardis 7yh, nos lau, Mehefin 23ain.
Tocynnau: £5.00

Colofn Blasus ac lachus

Chwilio am rysetiau? (……a chynhwysion?)

Mae'n rhaid i fi gyfaddef fy mod i'n falch bod y BBC wedi gwneud tro pedol ar y penderfyniad i gael gwared â'r wefan Bwyd Da (Good Food). Rhoddodd y 'Guardian' hanner tudalen i'r newyddiadurwr Christina Patterson i gyflwyno ymosodiad coeglyd ar y penderfyniad hwn mewn arddull a fyddai wedi bod yn fwy cartrefol yn y Daily Post! Cafodd ddigon o amser, wrth baratoi'r erthygl, i gyfrif y nifer o ryseitiau sydd ar y wefan ar gyfer 'Spaghetti Bolognese', risottos a mousse ac, o'i chyffes iddi falu leinin y pecyn plastig ynghyd â'r cig eidion wrth wneud peli cig, byddai wedi bod mwy o ddefnydd iddi dreulio rhywfaint o'r amser hwnnw'n darllen y ryseitiau! (Ond trwy ddarllen 'rhwng y llinellau', mae'n dod yn amlwg fod Ms Patterson am ddefnyddio'r erthygl ar gyfer agenda fwy personol h.y. i feirniadu cyflogau isel newyddiadurwyr !)

Dyna fi wedi wedi cael fy nweud! Nawr ymlaen gyda syniadau tymhorol sy'n defnyddio dau gynhwysyn na fydd yn costio ceiniog i chi. Mae'r ddau gyda blodau gwyn pert a arogleuon nodedig – garlleg gwyllt a blodau ysgawen.

Cefais fy ngyflwyno i ddefnyddio dail garlleg gwyllt mewn dosbarth coginio gyda Franco Taruschio. Risotto oedd y ryseit y diwrnod hwnnw lle gallwch ddefnyddio 'r dail yn lle spigoglys.

Mae'n bosibl bwyta'r dail yn amrwd ond maen't yn gallu bod yn rhy egr a tanllyd. I'w coginio,does dim ond angen amser byr iawn arnynt i'w gwywo mewn stêm neu olew olewydd. Gyda'u blas garlleg ysgafn maent yn dda gyda thatws newydd a asbaragws i weini gyda cyw iâr neu gig oen (cofiwch, mae angen hela llond bag ohonynt oherwydd eu bod yn crebachu wrth eu coginio yr un fath â sbigoglys!). Rho'wch dro arnynt hefyd gyda wyau mewn omelette neu frittata. Dyma ryseit am pesto gallwch ddefnyddio gyda pasta, mewn cawl llysiau neu fel dresin i salad (mae'n cadw am tua 5 diwrnod yn yr oergell)

50g garlleg gwyllt,
30g Parmesan wedi'i gratio'n fân
25g cnau cyll, heb y croen ac wedi'u tostio
Tua 100ml olew olewydd
Tua llwy bwdin o sudd lemwn
Halen a pupur

Golchi'r garlleg gwyllt yn dda cyn ei roi yn y prosesydd bwyd i'w falu, yna ychwanegu'r Parmesan a'i falu eto cyn ychwanegu'r cnau cyll. Gyda'r peiriant droi ymlaen ychwanegu digon o olew olewydd yn araf i gael yr ansawdd cywir. Ychwanegu halen, pupur a sudd lemwn at eich dant.

Mae tymor y dail garlleg gwyllt yn eitha byr, mae'n debyg y byddant wedi gorffen cyn i chi ddarllen hwn. Byr hefyd yw tymor y blodyn ysgawen, byddant o gwmpas yn gynnar ym mis Mehefin. Y llynedd ni chefais lwyddiant wrth wneud siampên o'r blodau gan fy mod yn rhy hwyr yn eu casglu. Mae angen defyddio blodau ifanc, wedi'u casglu yn y bore, i gael y burum gwyllt sy'n gweithio gyda siwgr i greu swigod. Defnyddiwch y blodau mor fuan ac sy'n bosibl ar ol eu casglu. Mae'r ryseit ar gyfer y siampên ar we-fan www.farminmypocket.co.uk yn union yr un fath â'r un a gefais gan fy modryb flynyddoedd yn ôl ac yn hawdd iawn i'w wneud. Mae'n debyg i lemonêd cain, melys a persawrus.

Byddaf yn rhoi cais ar wneud 'fritters' allan o'r blodau eleni. Os nad ydych am fynd allan i chwilio am flodau, gallwch brynu'r cordial ar gyfer rysetiau pwdinau fel y canlynol:

Pannacotta blodau ysgawen gyda riwbob a mintys

150ml llaeth hanner sgim
250ml hufen dwbl
20g siwgr
½ llwy de o rhinflas fanila
3 llwy fwrdd cordial blodau ysagwen
2½ deilen gelatin
200g riwbob wedi ei goginio gyda tua 40g siwgr
Dail mintys

Cynhesu'r llaeth, hufen, siwgr, rhinflas fanila a'r cordial yn araf, unwaith mae'n berwi ei gymryd oddi ar y gwres a gadael iddo oeri ychydig. Rhoi'r dail gelatin mewn dŵr oer am 3-4 munud i feddalu cyn gwasgu'r dŵr allan cyn ychwanegu'r gelatin meddal i'r hufen a llaeth gan gymysgu'r cyfan yn dda iddynt doddi. Gadael y cymysgedd oeri cyn ei rannu rhwng 4 ramekin (neu debyg) a'u rhoi yn yr oergell am 3-4 awr. Yna eu gweini gyda'r riwbob a mintys. (Llun tudalen 16)

Ac, i orffen, yn ôl i gwe-fan 'Good Food'! Edrychwch am ryseit 'Ffwl' lle mae'r blodau ysagwen yn cael eu cydweddu'n ardderchog gyda eirin Mair. Mwynhewch. http://www.bbcgoodfood.com/recipes/2220647/gooseberry-and-elderflower-fool

Meithrin cenhedlaeth newydd o siaradwyr Cymraeg

Cynllun newydd gan Lywodraeth Cymru yw 'Cymraeg i Blant' sy'n canolbwyntio ar gynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg ymhlith plant oedran meithrin. Rheolir y cynllun ar y cyd rhwng Mudiad Meithrin a Llywodraeth Cymru. Bydd y Llywodraeth yn ymgymryd â'r gwaith hyrwyddo cenedlaethol trwy nifer o bartneriaid, gan gynnwys y gwasanaeth iechyd, tra bod y Mudiad yn cynnal gweithgareddau ar lefel leol. Plethir gwaith 'Cymraeg i Blant' gyda gwaith ehangach y Mudiad er mwyn sicrhau siwrne gofal/addysg o'r crud i'r ysgol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn syml iawn prif nod y cynllun yw cynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg trwy gynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i rieni, darpar rieni a'u teuluoedd ar fuddion addysg Gymraeg a chyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i'w plant.

Canlyniadau Eisteddfod yr Urdd Fflint

Llefaru Unigol Bl. 2 ac iau
3ydd Geraint Barnes, Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant
Unawd Piano Bl. 6 ac iau 1af Charlotte Kwok, Ysgol Gynradd Dolau
Llefaru Unigol Bl. 3 a 4 (D)
2il Ffion Lewis, Ysgol Gynradd Creigiau
Dawns Stepio Grwp Bl. 6 ac iau
2il Adran Bro Taf
Grwp Llefaru Bl. 6 ac iau (D)
1af Ysgol Gynradd Creigiau
Dawns Werin Bl. 6 ac iau (Ysg. dros 100/ Adran dros 50) 2il Adran Bro Taf
Llefaru Unigol Bl. 5 a 6 (D)
2il Rhianna Young, Ysgol Gynradd Gwauncelyn
Cân Actol Bl. 6 ac iau (Ysg. hyd 100)
1af Adran Bro Taf
Grwp Llefaru (Adran) Bl. 9 ac iau
3ydd Adran Bro Taf
Dawns Werin Unigol i Ferched Bl. 9 ac iau
3ydd Beca Roberts, Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg
Dawns Werin Unigol i Fechgyn Bl. 9 ac iau 3ydd Iestyn Jones, Ysgol Gyfun Plasmawr
Dawns Werin Bl. 7, 8 a 9
2il Adran Bro Taf
Dawns Stepio Grwp dan 25 oed
2il Adran Bro Taf
Dawns Werin Unigol i Fechgyn Bl. 10 a dan 25 oed 1af Daniel Jones Ysgol Gyfun Plasmawr
2il Osian Gruffydd Adran Bro Taf
Dawns Werin (Aelwyd) Bl. 10 a dan 25 oed 2il Adran Bro Taf
Cyflwyniad Digri 14-25 oed
2il Adran Bro Taf
Dawns Stepio Bl. 7 a dan 25 oed
2il Adran Bro Taf

Cystadleuaeth y Gadair Bl. 10 a dan 25 oed
1af Gwynfor Dafydd, Ysgol Llanhari
Cyfansoddi Sgript Wreiddiol Bl. 7, 8 a 9
2il Anya Everitt Ysgol Llanhari
3ydd Cerys Griffiths Ysgol Llanhari
Gwaith Creadigol 3D Bl. 5 a 6 (Gwaith Grŵp)
1af Teulu Thomas Ysgol Gynradd Creigiau
Gwaith Lluniadu 2D Bl. 2 ac iau A. A.
3ydd Lucas Williams Ysgol Gynradd Maesybryn
Gwaith Creadigol 3D Bl. 2 ac iau A. A
1af Lucas Williams Ysgol Gynradd Maesybryn
Print Lliw Bl. 7, 8 a 9
1af Dafydd Powell Ysgol Llanhari

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**

Mis Mehefin 2016:
5 – Oedfa dan ofal y Parchg. Cynwil Williams
12 - Oedfa dan ofal Huw a June Lloyd
19 - Oedfa Sul y Tadau
26 – Oedfa gymun dan ofal y Parchedig R. Alun Evans

Mis Gorffennaf 2016:
3 – I'w gadarnhau
10 – Sul y Cyfundeb ym Mhenarth
17 – I'w gadarnhau
24 – Oedfa gymun dan ofal y Parchedig Dafydd Owen
31 – Oedfa (ar y cyd gyda'r Tabernacl, Efail Isaf) dan ofal Dr Ian Hughes

---

Roedd 'na bictiwrs (sinema) ym Mhenygroes pan oeddwn i yn blentyn – honglad o adeilad mawr gwyn a grisiau yn arwain at ddrysau gwydr a crôm y fynedfa – ac enw crand y "Plaza" ar y mur uwchben yn gwahodd pobl a phlant y dyffryn i'w grombil i weld y ffilmiau diweddaraf.

A mynd a fyddem yn ddeddfol bob pnawn Sadwrn i'r "matinee", i ddilyn hanes Tarzan a Jane, Bambi, ac wrth reswm, y "cowbois ac Indians" a roddai i ni yn eu tro oriau o ddynwared tra'n chwarae o gwmpas y strydoedd a'r caeau cyfagos.

Roedd y dynwared bob tro yn sicrhau mai'r cowbois oedd yn ennill a'r indiaid cochion yn colli – y cowbois oedd y bobl dda a'r Indians oedd y bobl ddrwg. 'Roedd gwn gan y cowbois, a bwa a saeth gan yr Indians, 'roedd het ar ben y cowbois a phlu yng ngwallt yr Indians. 'Roedd gwŷr meirch ("cavalry") byddin y taleithiau unedig bryd hynny (fel arfer dan ofal John Wayne) yn hynod ddisgybledig, a'r Indians yn brygowtha mewn iaith estron na ddeallai neb ond Tonto, ffrind y "Lone Ranger", hi. Mynd ar dan fu hanes y Plaza yn y diwedd, a hynny sbel wedi i'r lle ddangos ei ffilm olaf, gwerthu ei hufen ia olaf, a chau'r drws ar y cwsmer olaf.

Ond daeth y cyfan yn ôl yn fyw iawn i'm cof wrth i mi ymweld â "Monument Valley" ar y ffin rhwng Arizona ac Utah yn ddiweddar.

Dyma'r ardal lle mae'r tywodfaen, wedi erydiad gwynt a dŵr dros gyfnod o 50 miliwn o flynyddoedd, yn sefyll yn gadarn yn dyrau hyd at 1000 o droedfeddi mewn ambell fan yn y diffaethwch gan greu panorama gefndirol gyfarwydd mewn ffilmiau cowbois ac Indians, ac yn wir mewn llu o ffilmiau eraill yn ogystal. Dyma hefyd dir cysegredig y Navajo, y "Tse'Bii'Ndzisgaii", yn eu hiaith hwy.

Tra'n cael ein tywys o amgylch y tir hudolus yma, cefais olwg tra gwahanol ar "indiaid cochion" gwyllt a diwar byd seliwliod fy mhlentyndod.

Clywais am eu balchder yn eu hiaith gynhenid, er i awdurdodau y Unol Daleithiau geisio ei gwahardd rhag iddi gael ei siarad a'i dysgu yn yr ysgolion.
Clywais am eu parch at natur, y blodau, y planhigion a'r anifeiliaid oedd o'u cwmpas.
Clywais am eu ffyrdd o warchod yr amgylchedd a sut i beidio a gwastraffu adnoddau.
Clywais am eu gofal am eu teuluoedd ac am eu cyd-ddyn.
Clywais am eu meddyginiaethau a'u traddodiadau, eu cred a'u daliadau.
Clywais sŵn eu miwsig a siant eu gweddiau.

Tybed a fyddai'r Plaza heddiw, petai ar agor, yn dymuno cyflwyno golwg amgen ar fyd y cowbois a'r Indians i bobl Dyffryn Nantlle?

Wrth i ni ddynesu at y refferenwm ar aelodaeth Prydain o'r Gymuned Ewropeaidd, gochelwn rhag i fyd seliwloid ein camarwain a chreu bwganod o'n cyd-ddyn – "wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt".

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m. Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem sydd i'w chanfod ar www.gwe-bethlehem.org

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

CROESAIR COL



Ar Draws
5. Cogydd (3)
7. Iaith Gwynedd (9)
8. Oriawr mawr (4)
10. Difrifwch (8)
11. Lan (4)
12. Sicrhau (7)
14. Addoli (4)
16. Lluosog ni (4)
17. Gorchuddio ag aur (7)
18. Stêm (4)
20. Y bys canol (8)
22. Nam (4)
24. Cystadleuaeth (9)
25. Nonsens (3)

I Lawr
1. Dysgl (5)
2. Person sy'n uno (4)
3. Llysnafedd (8)
4. Sych (4)
5. Arffed (3)
6. Ergyd a throed (3)
8. Cysylltu (6)
9. Math o goeden (5)
12. Doniol (6)
13. Ffolineb (8)
15. Offeryn cerdd (5)
19. Llwyddo (5)
20. Tywyllwch (4)
21. Ateb negyddol (4)
22. Ar ôl y cyntaf (3)
23. Rhan o'r wyneb (3)

Atebion i: Croesair Col, 34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX erbyn 20 Mehefin 2016

Atebion Mai

T	I	M	P	A	N	I	T	E	S		G	
R			A		E		A		T		W	
A	F	O	N	Y	DD		E	C	O	L	E	G
W			T				O		M		R	
S	I	G	L	E	D	I	G		P	I	N	C
F			E				Y					Y
U	N	T	R	E	W		N	O	G	I	A	D
D					I				W			F
O	D	I	D		N	O	S	W	Y	L	I	O
	R		I		C				DD			D
L	E	T	A	N	I		P	R	O	C	I	O
	W		N		A		W		R			L
	I		C	Y	N	R	Y	CH	I	O	L	I

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mehefin
i gyrraedd erbyn
27 Mehefin 2016

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant

Taith Gerdded gydag
Alun Wyn Bevan
o Frynaman i Lanaman
Dydd Sadwrn Gorffennaf 9

Diwrnod Golff
i godi arian i Eisteddfod yr Urdd
Pencoed 2017 Hydref 2 2016,
Cwrs Golff Creigiau.

Gwybodaeth bellach:
Gwilym Treharne.
Rhif ffôn: 01443 205937
sym: 07950400457
ebost: gwilymtreharne@btinternet.com

Bore Coffi i'r dysgwyr

yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau, bob dydd Gwener am 11 y bore. Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.

MERCHED Y WAWR
Cangen Tonysguboriau

Hoff rysetiau'r gangen a'r cyfarfod blynyddol.

Mehefin 15fed
Rhagor o fanylion:
01443 202093 / 01443 203729

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Swper diwedd tymor yn Nhafarn y Gwaelod Nos Fercher Mehefin 15fed

Ffoniwch i archebu lle
Manylion: 029 20890770

CLWB Y DWRLYN

Noson o Hwyl
Yng
Nghlwb Rygbi Pentyrch
8yh nos Wener
12 Gorffennaf
Manylion: 029 20890040

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams

Stori serch go iawn!
Ar b'nawn hynod braf o fis Mai aeth Nathan a'i gariad Astrid, a Barti'r ci am bicnic i Abaty Tyndyrn. Dim byd allan o'r cyffredin hyd yma ond wele - dyma Nathan yn mynd lawr ar un pen-lin ac yn cyflwyno modrwy ddyweddio hardd ac anarferol i'w gariad! Felly llongyfarchiadau calonnog Nathan Price ac Astrid Morgan ar eich dyweddiad! Roedd yn benwythnos o ddathlu i Astrid, hithau newydd dderbyn swydd yn Ysgol Gyfun y Fro ar gyfer mis Medi. Wedi cyfnod o ddysgu yng Nghasgwent bydd siwr o fod yn braf dychwelyd i'r gyfundrefn addysg Gymraeg. Athrawes Ffrangeg a Sbaeneg yw Astrid. Pob lwc i ti!

Mwy o newyddion da!
Llongyfarchiadau mawr i Lowri Davies wrth iddi gwblhau ei chwrs Addysg ym Mhrifysgol y Drindod/Dewi Sant yr haf yma a sicrhau swydd dysgu yn ysgol Gynradd Gymraeg y Castell, Caerffili. Mae'n siwr bydd Lowri wrth ei bodd yn dysgu plantos CA1 a hynny dan arweiniad clir a gofalus Mrs H. Nuttall. Pob lwc i ti, Lowri!

Dymunwn yn dda hefyd i Megan Clements sy' ar fin graddio o Brifysgol Nottingham. Mae Megan hefyd yn edrych ymlaen at fyd gwaith - hithau wedi cael swydd fel ffisiotherapydd yn Nottingham. Pob hapusrwydd i tithe hefyd Megan.

Croeso Mali Meg!
Am fabi bach pert! Neu a fyddai'n fwy addas dweud 'del'? Llongyfarchiadau mawr Eleri a Geraint ar enedigaeth Mali Meg! Fe'i ganwyd ym Mangor ar y 9fed o Ebrill yn pwyso 6 phwys a thair owns. Mae'n chwaer fach i Gruffydd a Dafydd ac yn wyres i Dr Dafydd Knight a Margaret. Pob bendith deulu bach.

Gŵyl Wanwyn, Merched y Wawr!
Cafwyd noson hynod ddifyr yn y Ganolfan, Efail Isaf nos Wener y chweched o Fai. Ein tro ni fel Cangen oedd trefnu'r Ŵyl - mae'n debyg - ac fe gafwyd noson gymdeithasol hwyliog gyda thros drigain yn bresennol yn cymdeithasu'n braf dros baned a danteithion blasus iawn baratowyd gan aelodau'r Gangen. Diolch o galon i BAWB weithiodd fel slecs i sicrhau llwyddiant y noson. Codi arian i'r Rhanbarth oedd y bwriad ac fe anfonwyd swm anrhydeddus i'r trysorydd rhanbarthol.

Ysgol Evan James

Aeth blynyddoedd 1 a 2 i Garwnant i ddysgu am gynefinoedd a bywyd gwyllt y goedwig. Roedd eira, glaw a haul!

Roedd dosbarthiadau Blodeuwedd a Phwyll a Rhiannon wedi mwynhau profiad "Stomp." Llongyfarchiadau i'r Bardd Bach, Dafydd Emyr.

Cafodd Rhys Blow lwyddiant ysgubol wrth redeg ras 1500m a daeth yn drydydd yn Ne Cymru.

Daeth Kai Easter yn 8fed mewn cystadleuaeth dawnsio stryd rhyng-wladol. Llongyfarchiadau calonnog iddo.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yng nghyfarfod olaf ein tymor (Mai 16) cawsom gwmni Rhonwen Lewis o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Cafodd ei magu a'i haddysg ysgol ym Mlaenau Ffestiniog cyn dod i Gaerdydd i ddilyn cwrs gradd mewn iaith a lleferydd. Mae'n ddarlithydd yn yr adran ac yn paratoi traethawd at ennill Ph. D.

Ffocws penodol ei rhaglen ymchwil yw archwilio datblygiad lleferydd cynnar mewn plant dwyieithog, Cymraeg a Saesneg. Er bod llawer o astudiaethau wedi edrych ar sut mae seiniau lleferydd yn datblygu mewn plant dwy iaith, hyd yn hyn does neb wedi archwilio'n fanwl yn y maes hwn gyda phlant sy'n iau na dwy a hanner oed sy'n caffael y Gymraeg. Mae'r diffyg data empirig yn arwain at orddibyniaeth ar wybodaeth o astudiaethau yn y Saesneg; mae hyn y fater o bwys mawr wrth wneud penderfyniadau ynghylch asesu a thrin plant yng Nghymru.

Astudiwyd chwech o blant dros gyfnod o 18 mis, gan ddechrau pan oeddent yn 12 mis oed. Wrth iddynt chwarae gyda rhiant recordiwyd pob ynganiad; crewyd trawysgrifiad a dadansoddiad. Daeth yn amlwg bod datblygiad un bachgen yn wahanol i'r disgwyl. Roedd y bachgen, a oedd yn clywed y ddwy iaith gartref, yn defnyddio ystod gul o gytseiniaid, gan awgrymu bod ei eiriau i'w clywed yn debyg iawn i'w gilydd. Wrth gymharu ei ynganiadau mewn cyd-destun Cymraeg gyda rhai mewn cyd-destun Saesneg, gan ddefnyddio'r data gan y pump plentyn arall, bydd modd llunio darlun o ddatblygiad lleferydd anarferol mewn plentyn dwyieithog. Bydd modd defnyddio'r astudiaeth hon yn fan cychwyn i bonto'r bwlch yn yr ymchwil cyfredol.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Merched y Wawr
Bydd y gangen yn cwrdd nos Iau, Mehefin 9fed am 7.30 yn Festri Capel Sardis pan ddaw Mari Rhys, Caerdydd i wneud sesiwn ioga a meddwlgarwch.

Cyfarfod olaf cyn gwylie'r haf yw'r daith gerdded flynyddol - nos Iau Gorffennaf 14eg.

Cyngerdd yr Urdd
Gweithgaredd nesa dan ofal y pwyllgor lleol i godi arian i Eisteddfod yr Urdd 2017 yw cyngerdd gyda Merched Canna, Caerdydd ac eitemau gan ysgolion Cymraeg yr ardal. Dewch i Gapel Sardis nos Iau, Mehefin 23 ain. Y cyngerdd i ddechrau am 7.00yh. Tocynnau gan aelodau o'r pwyllgor- £5.00 yr un

Clwb Llyfrau
Y cyfrolau dan sylw yn y cyfarfod nesa yw clasuron i blant yn y Gymraeg.Cyfle i ail-ddarllen hen ffefrynnau!Dewch i Glwb y Bont nos Iau , Mehefin 16eg erbyn 8.00.

Ym mis Gorffennaf cawn gyfle i drafod unrhyw nofel Gymraeg a gyhoeddwyd yn ystod y tri mis diwethaf.Byddwn yn cwrdd yng Nghlwb y Bont nos Iau Gorffennaf 21ain.

Llongyfarchiadau
Pob dymuniad da i Bridie Morris, Pontypridd ac Ashley Coombes, Beddau a briododd ar ddiwedd Ebrill. Merch i Jo a Ieuan Morris, Heol Tyfica yw Bridie sy' n gyn ddisgybl Ysgolion Evan James a Rhydfelen. Cynhaliwyd y briodas yn Nhŷ Pencoed. Pedwar brawd Ashley oedd ei weision. Roedd gan Bridie nifer o forynion gan gynnwys ei nitherod ac hen ffrindiau o Ysgol Rhydfelen. Roedd cymdoges Jo a Ieuan yn canu'r Delyn yn ystod y seremoni sef Meinir Heulyn. Treulion nhw eu mis mel yn Dubai ac Ynysoedd y Maldives. Mae'r ddau wedi ymgartrefu ym Mhentre'r Eglwys.

Gwellhad buan
Brysia wella Aled Jones, Trallwn sy ddim wedi bod yn hwylus iawn yn ddiweddar. Mae staff a phlant Ysgol Bro Allta yn edrych mlaen i dy gael di nôl yno cyn bo hir.

Cylch Meithrin Ser Sardis
Mae'r cylch yn mynd o nerth i nerth ar ei newydd wedd. Bydd nifer o'r plant yn cychwyn yn Evan James ym mis Medi. Mae'r cylch yn awyddus i gynnig lle i blant newydd. Os ydych yn gwybod am rieni yn yr ardal sy'n dymuno rhoi profiadau meithrin i'w plant trwy gyfrwng y Gymraeg cysylltwch â'r arweinydd Zoe - 07814880924

Symud i'r ddinas
Dymuniadau gorau a phob hwyl i Iolo Morgan Jones, Graigwen yn ei gartref newydd yng Nghaerdydd.

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

01443 407570
www.menteriaith.cymru

Ymgyrch y Bêl – pobl a thrigolion yr ardal yn pasio'r 'bale' dros Gymru

Dros yr wythnosau diwethaf rydym ni Menter Iaith Rhondda Cynon Taf wedi bod yn cymryd rhan mewn ymgyrch genedlaethol Y Bêl – pasio'r 'bale' dros Gymru i gasglu negeseuon o gefnogaeth a llofnodion i'w cyflwyno i dîm Pêl-droed Cymru, mewn cinio dathlu wrth iddynt baratoi ar gyfer pencampwriaeth yr Ewro 2016.

Mae 23 pêl, un gyda phob Menter Iaith wedi bod yn crwydro Cymru dros yr wythnosau diwethaf gyda phum mil ar ugain o negeseuon o gefnogaeth yn cael eu nodi ar y peli.

Mae unigolion, teuluoedd, busnesau, clybiau lleol, sefydliadau ac ysgolion wedi datgan eu cefnogaeth i dîm Cymru a phasio'r 'bale' ymlaen i'r person nesaf, a hyn yn symbolaidd o bwysigrwydd trosglwyddo'r Gymraeg i eraill, er mwyn sicrhau ei dyfodol.

Un sydd wedi'i gyffroi'n lân am yr ymgyrch, ac sydd wedi chwarae rôl flaenllaw wrth hyrwyddo Cymru a'r Gymraeg dros y blynyddoedd yw'r cyn-chwaraewr a'r gôl-geidwad rhyngwladol, Dai Davies.

"Mae gweld Cymru, am y tro cyntaf ers cyfnod hir iawn, mewn pencampwriaeth ryngwladol yn rhywbeth i bob un ohonom ddathlu."

"Fel chwaraewr pêl-droed, a fel sylwebydd, mae'r gallu i siarad Cymraeg wedi bod yn fanteisiol iawn i mi yn ystod fy ngyrfa."

"Rwyf wrth fy modd, yn gallu cefnogi ymgyrch y Mentrau Iaith i gasglu cefnogaeth i'r tîm, a hoffwn alw ar bawb i ymuno yn y dathlu, cefnogi Cymru a chefnogi'r Gymraeg."

Os ydych chi'n awyddus i weld yr holl glipiau/lluniau o gefnogaeth i'r sgwad, cofiwch hoffi'n tudalen Facebook menterrhondda.cynontaf ein dilyn ar Twitter ac Instagram @menteriaithRhCT. Hefyd cofiwch chwilio am #CmonCymru a #DiolchCymru i weld negeseuon o bob cwr o'r wlad.

Ysgol Dolau

Tîm Diogelwch y Ffordd
Llongyfarchiadau i dîm yr ysgol am ennill y rownd derfynol yng nghystadleuaeth Diogelwch y Ffordd RhCT. Roedd yn gystadleuaeth agos iawn gyda Dolau yn cipio'r darian gyda dim ond 2 pwynt o flaen yr ail dîm! Cafodd y tîm wobr arbennig hefyd - i fynd i swyddfa drenau Arriva yng ngorsaf Caerdydd a chael tro ar yrru dau drên gwahanol! Pob lwc i'r tîm wrth iddyn nhw gystadlu yng nghystadleuaeth De Cymru.

'Fflic a Fflac'
Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen hwyl a sbri wrth wylio sioe Fflic a Fflac yn yr ysgol. Daeth y cymeriadau o'r rhaglen deledu yn fyw o'u blaenau a chafodd y plant hwyl wrth chwerthin a chanu gyda'r cymeriadau digrif.

Hwyl Pêl-droed
Aeth tîm pêl-droed merched yr ysgol i gystadlu draw ar gaeau'r brifysgol, Nantgarw. Cafodd y tîm ddiwrnod hwyl yn chwarae a chystadlu yn yr heulwen, gyda nifer o goliau wedi eu sgorio hefyd!

Traws-gwlad
Da iawn i bawb a gystadlodd yn y ras traws-gwlad ym Mhencoed. Gwnaeth nifer fawr o redwyr ddod o fewn y deg cyntaf, gyda phawb yn llwyddo gorffen y ras hir ar ddiwrnod poeth. Roedd yn bleser gweld cynifer o redwyr o flynyddoedd 3 a 4. Canlyniad gwych unwaith eto yn y ras bechgyn blwyddyn 5 a 6 gydag 2il, 3ydd a 5ed safle i Hywel Leyshon, Cameron Coburn a Joshua Kerry. Edrychwn ymlaen nawr at y ras hwyl olaf a'r gwobrwyo.

Miramar yn dod i Gartholwg

Yn ystod mis Mehefin bydd Cwmni Theatr Triongl ar daith genedlaethol gyda'i drama gyntaf- Miramar.

Ar ôl marwolaeth ei gŵr, caiff Enid (Valmai Jones), 74 oed, ei gorfodi i werthu'r tŷ lle y treuliodd ran fwyaf ei hoes. Mae hi'n gwylio o ffenestr yn nhŷ ei chymdogion wrth i'r perchnogion newydd gyrraedd a thrawsnewid ei chartref yn dŷ gwyliau. Maent yn ei adnewyddu, yn ei ail-enwi ac yna'n dychwelyd i'r ddinas, gan adael y tŷ'n wag.

Mae Enid, sydd bellach yn ddigartref, yn penderfynu gweithredu. Sioe gyntaf dywyll a doniol gan y cwmni o Gaerdydd, Triongl, sy'n archwilio syniadau am gartref.

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Y Goedwig Law
Ar Ebrill y 27ain, fe ddaeth Nigel Little o "The Size of Wales" i'r ysgol er mwyn trafod dad-goedwigo gyda'r disgyblion. Cafwyd prynhawn hwyliog a chyfle i ddysgu am y perygl sy'n wynebu coedwigoedd glaw, a hynny mewn ffordd ddiddorol a rhyngweithiol. Ar ddiwedd y sesiwn, cyflwynwyd siec o £40 i Nigel, tuag at brynu coed.

Elusen
Ddydd Gwener y seithfed ar hugain o Fai, daeth Mrs Rhian Burke i'r ysgol i dderbyn siec o £500 ar ran yr elusen "Wish Upon a Star". Cyflwynwyd y siec i'r elusen yn dilyn cyngerdd a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Chwaraeon
Bu criw o fechgyn yn cystadlu mewn Twrnamaint TAG ym Mharc yr Arfau'n ddiweddar. Fe chwaraeodd y tîm yn ardderchog ac fe gawsant gyfle i gwrdd â Bradley Thyer sy'n chwarae gyda'r Gleision hefyd. (Llun tudalen 13)

Hwyl fawr Mrs Morrish
Pob lwc i Mrs Morrish sydd wedi ein gadael dros dro, ar gyfnod mamolaeth. Bydd cyfle iddi roi ei thraed i fyny am ychydig wythnosau, cyn i'r babi gyrraedd ddiwedd Mehefin!

Cwis Llyfrau
Ar y 19eg o Fai, bu criw o ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn Nhŷ Dysgu, Nantgarw, er mwyn cystadlu yn y Cwis Llyfrau Cymraeg. Fe gyflwynodd y disgyblion ran o nofel Roald Dahl "Y Gwrachod". Roedd pedair ohonynt eisoes wedi cymryd rhan yn y rownd trafod rai wythnosau'n gynt, pan ddaethant yn ail. Da iawn nhw!

Masnach Deg
Rydym newydd glywed ein bod wedi sicrhau gwobr Masnach Deg am yr ail waith. Llongyfarchiadau i bawb am eu gwaith caled.

Yn ogystal â Theatr Gartholwg bydd Miramar i'w gweld yn Pontio, Canolfan Celfyddydau Aberystwyth, Theatr Taliesin a Theatr Clwyd.
Dyddiad sioe Gartholwg –Mehefin 15,
Amser- 7.30pm.
Am docynnau – 01443 219589
Mae'r ddrama hon yn ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg)

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

Lluniau Tudalen 15

Roald Dahl
Roedd disgyblion yr adran Iau, fel rhan o'u gwaith y tymor hwn, wedi cael amser wrth eu boddau yn gwylio a chymeryd rhan yn sioe 'Roald Dahl' gan gwmni 'Mewn Cymeriad'. Roedd yn ffordd wych i ddod i adnabod y cymeriadau o lyfrau Dahl yn well.

Celf a Chrefft yr Urdd
Llongyfarchiadau i ddisgyblion yr ysgol ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth celf a chrefft yr Urdd.

Cafodd Darcey Davies ddwy wobr gyntaf a 3ydd, Faith Thomas Wood 2il, Ffion Gould - 1af, Ffion Llywellyn - 3ydd a Harri Welsh 1af. Ardderchog!

Crefft y Ddraig
Roedd disgyblion Blwyddyn 2 a 3 wedi mwynhau gweithio ar y prosiect Crefftau y Ddraig gyda 10 o ysgolion eraill. Dysgwyd llawer o sgiliau ac roedd pawb wedi mwynhau y sialens o greu neuadd fawr i gastell Chi y ddraig gan defnyddio yr ap 'Minecraft'.

Cwpan Geltaidd
Llongyfarchiadau mawr i Rhys Griffiths a oedd yn aelod o sgwad gymnasteg bechgyn Cymru a ddaeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth gwledydd Celtaidd a gynhaliwyd ar Ynys Manaw yn ddiweddar.

Chwaraeon
Bu disgyblion o Flwyddyn 5 a 6 yn cystadlu yn nhwrnament pêl fasged 'Valley Hoops' yn y Rhondda Fach. Aeth criw o fechgyn a merched i dwrnament pêl droed 7 bob ochr yr Urdd yn Nhrefforest. Aeth tîm rygbi tag yr ysgol i Barc yr Arfau yng Nghaerdydd i gymeryd rhan yn nhwrnament blynyddol y Gleision – cafodd pawb ddiwrnod i'w gofio.

Arweinwyr Digidol
Aeth 8 o'r arweinwyr digidol i Ysgol Bro Edern i gymeryd rhan yn 'Her Robotics Stem'. Llwyddodd pob un i gyflawni'r sialens ac roeddynt wedi mwynhau y profiad yn fawr iawn.

Cyngor Eco
Mae'r Cyngor Eco wedi bod wrthi yn brysur yn casglu bocsys wyau Pasg i'w hailgylchu. Cafwyd ymateb gwych gan blant yr ysgol i'r ymgyrch.

Catrin Finch
yn cyflwyno
Classical Café
8yh yn Acapela, Pentyrch

7 Gorffennaf 2016

Ysgol Castellau

Disgyblion Dosbarth y Taf yn dangos cardiau Dydd Ewyllys Da cyn eu hanfon i'w ffrindiau yn Ysgol Llyn y Forwyn.

Dosbarth Caradog yn derbyn gwobr am y dosbarth â'r presenoldeb gorau yn yr ysgol. Yn wir da iawn i holl blant yr ysgol gan mai disgyblion Castellau sydd â'r presenoldeb gorau yn Rhondda Cynon Taf eleni.

Roedd disgyblion Dosbarth y Cwm wrth eu bodd pan alwodd Mrs Alan i'w gweld gydag Aron, ei babi newydd.

Mae hi wedi bod yn dymor prysur a llwyddiannus i'r tîm rygbi. Colli mewn dwy rownd derfynol Ysgolion Pontypridd (7 bob ochr a 10 bob ochr) a chynrychioli'r ardal yn arbennig o dda yng Nghystadleuaeth 10 bob ochr Cymru yn Nyfnaint. Llongyfarchiadau arbennig i Owen, Ioan a Steffan am fod yn aelodau cyson o garfan Ysgolion Pontypridd eleni.

Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant

Bechgyn fu'n cystadlu mewn Twrnamaint TAG ym Mharc yr Arfau. Fe chwaraeodd y tîm yn ardderchog ac fe gawsant gyfle i gwrdd â Bradley Thyer sy'n chwarae gyda'r Gleision hefyd.

Y Cyngor Ysgol yn ymweld â'r Senedd ym Mae Caerdydd. Bu cyfle hefyd i sgwrsio â Mick Antoniw, Aelod Pontypridd yn y Siambr.

Tîm pêl-droed y bechgyn a ddaeth yn drydydd yng Nghystadleuaeth yr Urdd yn ddiweddar.

Tîm pêl-droed y merched a ddaeth yn drydydd yng Nghystadleuaeth yr Urdd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau arbennig i Megan am gael ei dewis i Academi Cardiff City eleni.

Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg

Aeth yr Uned Dan 5 ar wibdaith hyfryd i Fferm-sŵ Arch Noa ym Mryste i ddysgu am amryw o anifeiliaid y fferm a thramor. Cafodd bawb amser gwych! Diolch yn fawr iawn i'r rhieni daeth i helpu.

RSD
Da iawn i Annabelle Mountjoy o'r Feithrin sydd wedi bod yn cystadlu yng nghystadleuaeth dawns 'Cheerleading' gyda chwmni RSD. Daethon nhw'n gyntaf yn y rownd derfynol ac enillon nhw dlws sydd bron a bod yn fwy nag Annabelle!

Amy Wadge
Daeth Amy Wadge i mewn i weithio gyda phlant o flynyddoedd 5 & 6 i ysgrifennu cân newydd i'r ysgol gyda chymorth Mrs Bode. Ar ôl bore o waith cynhyrchwyd cân gynnes gafaelgar, a fydd yn cael ei pherfformio i weddill yr ysgol yn y dyfodol agos.

Pêl –droed
Teithiodd tîm pêl-droed y bechgyn i'r gystadleuaeth Cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth. Chwaraeon nhw yn wych, ond yn anffodus daeth diwedd y daith yn rownd yr wyth olaf.

Ysgol Dolau (Tudalen 12)

Hwyl Pêl-droed

Sioe Fflic a Fflac

Enillwyr Diogelwch y Ffordd

'Follow Your Dreams'

Daeth John o 'Follow your Dreams i siarad am yr elusen yn ein gwasanaeth ysgol ac i gasglu £150 o arwerthiant cacennau ar iard yr ysgol.

Blwyddyn 1 a 2

Mae Blwyddyn 1 a 2 wedi bod yn dysgu am wahaniaethau'r Eglwys a Chapel. Aethon nhw am dro ar ddiwrnod braf gyda Mrs Page i ymweld â'r ddau. Hefyd aeth dosbarth Mrs Hale i gapel Salem i ddysgu am Fedydd gyda Rosa Hunt.

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Cystadleuaeth Pêl-droed Cwpan Ysgolion Rhondda a Phontypridd
Enillodd tîm pêl-droed Blwyddyn 11 gystadleuaeth Cwpan Ysgolion Rhondda a Phontypridd yn erbyn Ysgol Gymunedol Sir y Porth. Y sgôr derfynol oedd Garth Olwg 2 Ysgol Gymunedol Sir y Porth 1.
Llongyfarchiadau mawr i'r tîm!

Cystadleuaeth Athletau'r Sir - Aberhonddu
Llongyfarchiadau i'r merched a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth Athletau'r Sir yn Aberhonddu ar ddiwedd mis Ebrill. Dyma'r canlyniadau:
Clwydi: Clara Nuthall 1af
Naid Uchel: Ellie Stonehewer 2il
Naid Driphlyg: Ellie Stonehewer 3ydd
1500m: Gwenno Iolo Davies 3ydd

Cystadleuaeth Rygbi 15 bob ochr
Bu bechgyn blwyddyn 7 yn cystadlu yng nghystadleuaeth rygbi 15 bob ochr Ysgolion Pontypridd. Daethant yn ail gan golli mewn gêm agos iawn yn erbyn Ysgol Bryn Celynnog o 20 i 17. Mae'r bechgyn yn parhau i gwyno am benderfyniadau'r dyfarnwr!

Cap cyntaf i Gymru
Teithiom i Ddurham er mwyn chwarae gêm bêl-droed yn erbyn Lloegr mis diwethaf. Roeddem yn cynrychioli Clwb Merched a Bechgyn Cymru a chawsom ni ein capiau cyntaf! Enillon ni 5-0 ac roedd yn brofiad anhygoel. Roedd ein teuluoedd ni'n falch iawn ohonom ac rydyn ni'n falch iawn ein bod wedi cael cyfle i chwarae dros ein gwlad. Gobeithio cawn chwarae yn erbyn Lloegr blwyddyn nesaf hefyd.

Gan Madison Keetch a
Lauren Bird. Blwyddyn 8

Llwyddiant Cynllun PUPIL
Ar y Seithfed ar hugain o Ebrill aeth disgyblion y cynllun PUPIL o flynyddoedd 8 a 9 i bencadlys y Gwasanaeth Tân De Cymru i wneud cyflwyniad. Dros y misoedd diwethaf maen nhw wedi bod yn cydweithio gyda Craig Hutching, gweithiwr tân, i ddysgu mwy am losgi bwriadol (blwyddyn 8) a diogelwch ar y ffordd (blwyddyn 9). Y dasg oedd creu cyflwyniad i gyflwyno o flaen Pennaeth Gwasanaeth Tân De Cymru. Roedd pawb wedi gweithio'n galed iawn ac wedi llwyddo i gyflawni'r her o sefyll o flaen nifer o oedolion a chyflwyno'r cyflwyniad yn hyderus ac yn glir. Da iawn i bawb!

Seremoni Dathlu Cyrhaeddiad
Brynhawn Gwener y 13eg o Fai cynhaliwyd seremoni arbennig i ddathlu cyrhaeddiad a llwyddiannau Blwyddyn 11 a chael cyfle i ddymuno'n dda iddynt yn eu harholiadau. Ar ôl gair o groeso gan y Prifathro Mr Trystan Edwards, cawsom ein diddanu gydag eitemau adloniant oedd yn arddangos talentau'r flwyddyn. Roedd deuawd piano Ethan a Lucas, o gyfansoddiad gwreiddiol gan Ethan, 'Bye bye boogie' yn ddarn agoriadol bywiog dros ben a pherfformiad graenus Georgia, Jessica, Caitlin a Taome o'r ddawns greadigol yn ein hatgoffa o'u llwyddiant blaenorol yn Eisteddfod yr Urdd. Cyflwynwyd chwe thystysgrif Disgybl y Llys gan y tiwtoriaid a dyfarnwyd gwobr arbennig y sir am Gyflawniad Cadarnhaol i Daniel Townley Keogh. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt. Cafwyd cyfle i hel atgofion wrth edrych ar luniau Mr Irfon Bennett o gyrsiau a gweithgareddau'r gorffennol a chyflwyno rhai gwobrau 'arbennig' i ddisgyblion unigol! Ar ôl diolch i'r tiwtoriaid a'r staff daeth y grŵp 'Y Cyfeiriad Arall' sef Ethan, Osian a Rowan i roi diweddglo ysgubol i'r cyfan gyda'u cyfres o ganeuon pop. Diolch am bob cyfraniad at lwyddiant y prynhawn a phob dymuniad da i bob un o'n disgyblion yn yr arholiadau!

Ysgol Tonyrefail (Tudalen 12)

Enillwyr Celf a Chrefft yr Urdd

Dathlu Prosiect Crefft y Ddraig

Rhys Griffiths a'i Fedal Aur yn y Cwpan Geltaidd Gymnasteg

Y Tîm Rygbi ym Mharc yr Arfau

Siom i Ponty ar ddiwedd tymor cystadleuol

Diweddglo siomedig gafodd Clwb Rygbi Pontypridd i'r tymor, er i'r ymgyrch ar y cyfan fod yn un llwyddiannus. Record y tymor mewn tair cystadleuaeth i Bontypridd oedd:-
gorffen ar frig uwch-adran y Principality, ond ildio'r goron yn y Ffeinal yn erbyn Glyn Ebwy
colli yn rownd gynderfynol Cwpan SWALEC
ennill Cwpan Her Fosters

Daeth tymor hir a hynod gystadleuol yn Uwch Adran y Principality i ben ddydd Sul 15fed o Fai gyda Pontypridd yn herio Glyn Ebwy yn y Ffeinal.

Dros ystod y tymor roedd Ponty, am y chweched tro yn olynol, wedi gorffen ar frig y tabl, gyda record o ennill 17 a cholli 5 o'u gemau yn y gynghrair. Roedd Glyn Ebwy yn y trydydd safle, ac wedyn wedi trechu Llanymddyfri yn y rownd gynderfynol i gwrdd â Ponty yn y Ffeinal. Gyda'r fantais o chwarae adre ar Heol Sardis roedd Ponty yn disgwyl sialens wirioneddol gan 'Wŷr y Dur' o Went - tîm a oedd wedi eu trechu ddwywaith eisoes yn ystod y tymor.

Roedd Glyn Ebwy, dan hyfforddiant cyn seren Cymru Nigel Davies, yn dod gyda pac o flaenwyr profiadol a gyda thîm oedd fel uned wedi arfer ac ennill gemau. Yn chwarae gerbron torf fawr ar brynhawn braf, fe gafodd Ponty ddigon o afael ar y bêl, a dominyddu tiriogaeth yn ystod hanner cyntaf y gêm, ond yn methu'n lan a bylchu amddiffyn trefnus Glyn Ebwy. Ar ddau achlysur torrodd yr ymwelwyr mewn i hanner Ponty a sgorio ddwywaith, i arwain ar yr egwyl o 0pt i 14.

Yr un oedd yr hanes wrth i'r gêm fynd yn ei blaen, Ponty yn hawlio meddiant ond yn edrych yn llafurus yn eu hymdrechion, ac yn methu cystadlu a blaenwyr awchus Glyn Ebwy yn ardal y dacl. Aeth yr ymwelwyr o Went ymlaen i sgorio tri chais arall, a dau gais cysur yn hwyr yn y gêm i Bontypridd yn gwneud fawr o wahaniaeth. Glyn Ebwy aeth a hi, yn sicrhau buddugoliaeth o 12pt i 38 ac felly yn hawlio coron yr Uwch-Gynghrair, a hynny yn gwbl haeddiannol.

O gymharu â llwyddiannau mawr y blynyddoedd diweddar, eithaf siomedig oedd y tymor a fu i Bontypridd, gydag un tlws yn unig - Cwpan Her Fosters - wedi ei ennill.

Ar nodyn mwy cadarnhaol roedd nifer o chwaraewyr ifanc wedi camu mewn i'r garfan ac wedi dangos addewid mawr, gan gynnig gobaith am y dyfodol. Roedd y gynghrair wedi bod yn hynod o gystadleuol, gyda saith clwb yn herio am y goron hyd at y diwedd un. Tipyn o gamp felly oedd i Ponty ddiweddu'r tymor ar frig y tabl, er gwaetha'r siom enbyd wedyn o ildio'r goron i Lyn Ebwy.

Colofn Blasus ac lachus (Tudalen 8)

Garlleg gwyllt ar gyfer y rysêt pesto.

Pannacotta blodau ysgawen gyda riwbob a mintys